**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 16 MAWRTH 2022 DYDD MERCHER, 16 MAWRTH 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Damien McCann (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Rheolwr Gyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG** | |
| **No. 5** | **CYNLLUN BUSNES 2022-2025**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol yn flynyddol i adolygu drafft Gynllun Busnes EAS 2022-2025 fel rhan o'r broses ymgynghori ranbarthol. Byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn sicrhau fod y cynllun yn rhoi cefnogaeth briodol i ysgol a lleoliadau ym Mlaenau Gwent. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y newidiadau a wnaed i'r cynllun presennol, sy'n cynnwys cyd-destun mewn ymateb i Covid-19 a datganiad rhanbarthol o fwriad sy'n symud ymaith o weledigaeth i ddatganiad ffurfiol o fwriad a gafodd ei groesawu gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol a Phrif Swyddogion Addysg ar draws y rhanbarth. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys blaenoriaethau strategol Blaenau Gwent ac o safbwynt hunanwerthuso mae crynodeb ar gynnydd yn y prif gynllun ac nid yn yr adran gefnogi fel mewn cynlluniau blaenorol. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd fod y Cynllun yn dangos mesurau a deilliannau hyd at 2025, oedd yn ddefnyddiol i fesur cynnydd.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y caiff ystadegau a straeon o Flaenau Gwent eu cynnwys yn atodiadau'r Cynllun sy'n adlewyrchu'n dda ar Flaenau Gwent. Ychwanegwyd ymhellach fod drafft Gynllun Busnes EAS wedi ei groesawu a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r Cynllun Busnes a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 6** | **<u>POLISI DERBYN ADDYSG FEITHRIN A STATUDOL 2023/24</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad sy'n amlinellu canlyniad y broses ymgynghori flynyddol, yn unol â drafft diwygiedig Polisi Derbyn Addysg Feithrin a Statudol 2023/24 Blaenau Gwent. Gofynnir i'r Pwyllgor Gweithredol am eu barn a'u sylwadau ar y ddogfen wrth baratoi ar gyfer cylch derbyn 2023/24, cyn ei benderfynu a'i gyhoeddi ar 15 Ebrill 2022.<br><br>Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y caiff y newidiadau mwyaf sylweddol eu hamlinellu yn yr adroddiad a rhoddodd grynodeb o'r prif newidiadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y ddogfen polisi (Opsiwn 1). | |
| **No. 7** | **<u>POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL A FFRAMWAITH HYFFORDDIANT DIOGELU CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor Gweithredol ar y datblygiadau ynghylch argymhellion Archwilio Cymru yn ymwneud â datblygu Polisi Diogelu Corfforaethol a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol a fanylir yn yr adroddiad a'r atodiadau. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd drosolwg o'r pwyntiau allweddol a amlinellir yn yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad (Opsiwn 1) a:<br>• chytuno ar y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig, a<br>• chytuno ar y Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol a'i gynllun gweithredu. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION YR</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **AMGYLCHEDD** | |
| **No. 8** | **ADDASIADAU I'R ANABL – CYNNIG DIWYGIO POLISI I DDILEU PRAWF MODD**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar y cyd.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd drosolwg manwl o'r adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gweithredol i ddiwygiad polisi arfaethedig a fyddai'n dileu'r prawf modd presennol ar gyfer grantiau ar gyfer addasiadau i'r anabl ym Mlaenau Gwent.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r diwygiad polisi arfaethedig a fyddai'n dileu'r prawf modd presennol ar gyfer grantiau ar gyfer addasiadau i'r anabl ym Mlaenau Gwent o 1 Ebrill 2022. | |
| **No. 9** | **CAFFAEL ASEDAU PRIFFYRDD YN SIX BELLS, ABERTYLERI**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi opsiynau i'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer caffael arfaethedig asedau priffordd yn Six Bells, Abertyleri. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod consortiwm o breswylwyr o High Street, Six Bells wedi cysylltu â'r Cyngor a gofyn i'r Cyngor ystyried dod yn berchennog rhydd-ddaliad tir sydd o fewn eu perchnogaeth y consortiwm ar hyn o bryd. Prynodd y consortiwm y tir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym mis Rhagfyr 2019 i ddiogelu buddiannau preswylwyr a pherchnogion eiddo lleol. Byddai'r grŵp yn awr yn hoffi cynnig buddiant y rhydd-ddaliad ar gyfer yr asedau priffordd am ddim cost i'r Cyngor. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol nad oedd unrhyw reswm amlwg pam na fedrid trosglwyddo'r asedau priffordd hyn yn ffurfiol dan rydd-ddaliad i berchnogaeth y Cyngor gan fod y Cyngor eisoes yn ariannu'r costau cynnal a chadw yn uniongyrchol eisoes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwywyd y cais i wneud y trefniadau angenrheidiol i gwblhau a throsglwyddo'r buddiant rhydd-ddaliad i'r Cyngor. (Opsiwn 2). | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 10** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - 2021/2022, RHAGOLWG ALL-DRO HYD 31 MAWRTH 2022 (FEL AR 31 RHAGFYR 2021)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o'r rhagolwg sefyllfa all-dro ariannol ar draws pob portffolio ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 (fel ar 31 Rhagfyr 2021).<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog bod y cyfanswm amrywiad ffafriol ym mis Rhagfyr 2021 yn £4.65m, ar ôl defnyddio Cyllid Caledi Llywodraeth Cymru a dywedodd y bu cynnydd o £1.835m yn yr amrywiad ffafriol ers rhagolwg sefyllfa Medi 2021 (£2.814m). Rhoddodd y Prif Swyddog drosolwg pellach o'r amrywiad anffafriol ar draws y portffolios a fanylir yn yr adroddiad a dywedodd fod y rhain yn cael eu monitro a'u hadrodd yn unol â'r cynlluniau gweithredu sydd yn eu lle i drin pwysau cost.<br><br>Teimlai'r Arweinydd fod yr adroddiad hwn yn dod â'r weinyddiaeth bresennol i ben mewn sefyllfa ariannol gadarnhaol. Credai'r Arweinydd fod y Cyngor wedi rheoli'r gyllideb yn dda ac wedi gosod llwyfan cryf ar gyfer y dyfodol a gweinyddiaeth newydd ym mis Mai. Dywedodd y dylai'r Cyngor ymfalchïo yn y sefyllfa gadarnhaol a adroddwyd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi'r her briodol i'r deilliannau ariannol a amlinellir yn yr adroddiad. (Opsiwn 1). | |
| **No. 11** | **MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF, RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021/2022 (FEL AR 31 RHAGFYR 2021)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog Adnoddau drosolwg i'r Pwyllgor Gweithredol o wariant cyfalaf a rhagolwg gwariant pob portffolio o gymharu â chymeradwyaeth cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, fel ar 31 Rhagfyr 2021.<br><br>Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn ôl rhagolwg 31 Rhagfyr 2021 | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn dangos amrywiad anffafriol o £227,852 yn erbyn cyfanswm cyllideb gyfalaf yn y flwyddyn o £20.1m. Amlinellodd y Prif Swyddog y gorwariant fel y manylir yn yr adroddiad a dywedodd fod trafodaethau gyda chyrff cyllido yn gadarnhaol ar hyn o bryd, felly ni chynigid y byddai cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn yn cael eu hadeiladu i mewn o'r gronfa cyfalaf wrth gefn ar y cam hwn. Fodd bynnag, roedd y Prif Swyddog yn ymwybodol fod y Cyngor yn agosáu at ddiwedd y flwyddyn ac y gall fod angen edrych ar opsiynau cyllid.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad (Opsiwn 1) a:-<br><br>• rhoi'r her briodol i'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad;<br>• parhau gyda chefnogaeth ar y gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor;<br>• nodi'r gweithdrefnau rheoli a monitro'r gyllideb sydd ar waith o fewn y Tîm Cyfalaf i ddiogelu cyllid yr Awdurdod. | |
| **No. 12** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI 2021/2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Hysbysodd y Prif Swyddog Adnoddau y Pwyllgor Gweithredol am y rhagolwg sefyllfa cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2021/2022 fel yn Chwarter 3 a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad sy'n dangos fod y Cyngor wedi mynd i'r afael â chydnerthedd ariannol y sefydliad. Er fod gan y Cyngor y lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn ers 2012, dywedodd yr Arweinydd nad yw'r Cyngor ond rhan o'r ffordd lan y tabl cynghrair o gymharu â lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol arall. Fodd bynnag, teimlai'r Arweinydd fod y Cyngor yn symud yn y cyfeiriad iawn ac yn gosod y Cyngor nesaf mewn lle da i etifeddu neu ecsbloetio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried y rhagolwg o ddefnydd cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi ar gyfer 2021/2022 (Opsiwn 1) a<br><br>• yr effaith y byddai amrywiad ffafriol o £4.649m ar gyfer 2021/2022 yn ei gael ar y cyfraniad yn y gyllideb i'r Gronfa wrth | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gefn Gyffredinol;<br>• nodi'r rhagolwg o'r cynnydd yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn 2021/2022 i £12.402m, gan fod yn 9.39% o wariant refeniw net, yn uwch na lefel targed 4%;<br>• parhau'r angen am reolaeth ariannol ddarbodus barhaus i gefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a chydnerthedd ariannol y Cyngor; a<br>• pharhau i herio gorwariant yn y gyllideb a gweithredu cynlluniau gweithredu addas ar gyfer gwasanaethau, lle mae angen. | |
| **No. 13** | **RHAGLEN PONTIO'R BWLCH 2021/2022 – DIWEDDARIAD CYNNYDD MIS HYDREF I FIS RHAGFYR 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd ar yr Adolygiadau Busnes Strategol yn ystod cyfnod mis Hydref i fis Rhagfyr 2021, yr asesiad diweddaraf o'r hyn a gyflawnwyd yn ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r amcangyfrif o'r cyflawniad diweddaraf rhwng 2022/23 a 2026/27.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Adnoddau y bylchau cyllideb ar gyfer 2022/23 i 2026/26 a dywedodd y disgwylir y bydd y rhagolwg cyflawniad yn fwy na'r amcangyfrif cyflawniad o £0.75m gan £0.25m ar gyfer y flwyddyn bresennol oherwydd canlyniad llwyddiannus yr apeliadau ar werthoedd trethiannol eiddo ac asedau'r Cyngor ac incwm rhent ar unedau diwydiannol.<br><br>I gloi, dywedodd y Prif Swyddog y teimlai fod hwn yn adroddiad cadarnhaol arall ar sefyllfa ariannol y Cyngor.<br><br>Cytunodd yr Arweinydd fod hwn yn adroddiad cadarnhaol a theimlai y bu rhaglen Pontio'r Bwlch yn ddarn cadarnhaol o waith oedd wedi diogelu gwasanaethau yn yr Awdurdod lle mae'r Cyngor wedi symud ymaith o'r ffordd draddodiadol o gydbwyso cyllidebau lle roedd y Cyngor yn edrych ar feysydd gwasanaeth ar gyfer toriadau. Gobeithid y byddai hyn yn parhau, er y teimlid y byddai angen mireinio'r Rhaglen yn y dyfodol.<br><br>Nododd yr Arweinydd uchelgais ac ymrwymiad swyddogion ynghyd â mwyafrif y gwleidyddion sy'n cefnogi'r Rhaglen a theimlai'r Arweinydd y byddai'n rhan bwysig yn nyfodol cyllidebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi'r her briodol i raglen Pontio'r Bwlch. (Opsiwn 1). | |
| | **EITEMAU MONITRO - YR AMGYLCHEDD** | |
| **No. 14** | **YMESTYN CONTRACT – GWASANAETH TRINIAETH RHEOLI PLA HYD 31 RHAGFYR 2023**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi parhad y contract gyda Rentokil tan 31 Mawrth 2023. Byddai wedyn yn cael ei adolygu a'i aildendro, fel sydd angen, yn unol â'r rheolau caffael corfforaethol. (Opsiwn 1) | |
| **No. 15** | **GWEITHGAREDD GORFODAETH TIPIO ANGHYFREITHLON 2021/22**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Gwasanaethau Gorfodaeth Rheng Flaen.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar weithgareddau gorfodaeth yr Awdurdod yng nghyswllt tipio anghyfreithlon a throseddau rheoleiddio gwastraff eraill a lefel y gweithgaredd tipio anghyfreithlon o fewn Blaenau Gwent am y flwyddyn 2021/22. Siaradodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol yn fanwl am yr adroddiad ac amlinellodd y pwyntiau allweddol i'r Pwyllgor Gweithredol fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.<br><br>Croesawodd Aelod Gweithredol yr Amgylchedd yr adroddiad cadarnhaol a gafodd ei groesawu gan y Pwyllgor Trosolwg Cymunedol. Bu nifer o sylwadau ffafriol ar waith y Tîm Gorfodaeth.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol fod hwn yn faes a fu'n ffynhonnell cwynion gan aelodau'r cyhoedd am amser maith, na fyddai wedi bod â chonsyrn am yr ochr weithredol gan fod preswylwyr eisiau gweld gweithredu. Roedd y Tîm Gorfodaeth wedi cyflwyno ffyrdd gwahanol o weithio yn hytrach na dyblygu gwahanol wasanaethau ar draws digwyddiadau tîm yn cael eu trin gyda'i gilydd a chaiff eu camau gweithredu eu hamlinellu yn yr adroddiad. Ychwanegodd | |

fod y Tîm Gorfodaeth yn gynllun y dymunai ei ddatblygu i symud y Cyngor hwn ymlaen. Mae'n flaenoriaeth bersonol ac yn flaenoriaeth i'r weinyddiaeth ac mae'r adborth gan breswylwyr yn gadarnhaol.

Cyfeiriodd yr Aelod Gweithredol ymhellach at Ganolfan Ailgylchu Roseheyworth a nodwyd y system archebu a weithredwyd oherwydd cyfyngiadau Covid-19, fodd bynnag o heddiw ymlaen byddai system hybrid ar waith yn galluogi preswylwyr i droi lan ar y safle heb wneud apwyntiad. Dewiswyd safle Roseheyworth gan ei fod yn safle mwy sydd hefyd â siop ar y safle ar gyfer preswylwyr i ymweld â hi. Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol hefyd y byddai'r gwaith yn dechrau yn fuan ar Ganolfan Addysg ar y safle a fyddai'n addysgu plant am sbwriel ac ailgylchu.

Ategodd yr Aelod Gweithredol fod hwn yn adroddiad da sy'n amlygu gwaith y Tîm Gorfodaeth ar draws y Fwrdeistref.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y weinyddiaeth wedi dymuno gwneud y gwaith hwn am flynyddoedd lawer. Bu oedi oherwydd y pandemig, fodd bynnag mae'r gwaith yn cael ei wneud yn awr ac mae'r cyhoedd wedi cydnabod y newidiadau yn eu hardaloedd. Mae'r Tîm Gorfodaeth Rheng Flaen yn gwneud gwaith ardderchog ac mae'r gwahaniaeth yn y Fwrdeistref wedi bod yn enfawr. Ychwanegodd yr Arweinydd fod cryn ffordd yn dal i fynd gyda chyfuno'r Tîm Gorfodaeth, fodd bynnag roedd yr Arweinydd wedi dweud y dylem gyflwyno'r hysbysiadau cosb a chadw penderfyniad i gadw Blaenau Gwent yn daclus. Mae'r cynnydd a'r gwaith a wnaed yn glod enfawr i'r Adran gyda chefnogaeth Aelod Gweithredol yr Amgylchedd.

I gloi ychwanegodd yr Aelod Gweithredol fod yr adroddiad hwn yn dangos y dechrau cryf, fodd bynnag roedd ffordd bell i fynd gyda'r cynllun ac mae'r Aelod Gweithredol yn hyderus y byddai'r Tîm Gorfodaeth yn parhau i sicrhau'r canlyniadau gorau.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithredol yn parhau i gefnogi'r gwaith rheoleiddio gwastraff a datblygu'r Gwasanaeth Gorfodaeth Rheng-flaen fel y manylir yn yr adroddiad (Opsiwn 1).

**DIWEDDARIAD LLAFUR – MATERION ADDYSG**

**CYMUNED DDYSGU ABERTYLERI**

Ar wahoddiad yr Arweinydd, ymddiheurodd yr Aelod Gweithredol Addysg am fod yn hwyr yn adrodd yr wybodaeth hon, fodd bynnag dim ond newydd ddod i law y mae ac mae'n newyddion cadarnhaol i'w rannu yng nghyswllt Cymuned Ddysgu Abertyleri ac felly gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg roi'r diweddariad perthnasol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y cynhaliwyd arolwg monitro Estyn yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri ym mis Chwefror 2022. Mae Estyn wedi cyhoeddi'r canfyddiadau heddiw ac mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn falch i adrodd fod y Gymuned Ddysgu wedi gwneud cynnydd digonol ar y 7 argymhelliad ac wedi ei thynnu o Gategori Gwella Estyn. Mae hyn yn newyddion gwych i'r Gymuned Ddysgu a'r Cyngor yn ogystal â phlant Cymuned Ddysgu Abertyleri.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y datblygwyd datganiad i'r wasg mewn cysylltiad gyda'r Pwyllgor Dysgu a dymunai ddiolch iddynt am eu gweithredu prydlon. Teimlai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol fod hwn yn fwy o newyddion da i ddod â'ch cylch presennol o gyfarfodydd i ben.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol Addysg fod hyn yn newyddion gwych, yn bennaf oll ar gyfer y plant. Bu'n gymaint o daith i'r Gymuned Ddysgu ac mae'r Aelod Gweithredol yn hynod falch ei fod yn awr mewn lle mor gadarnhaol a byddai'n mynd o nerth i nerth. Mynegodd yr Aelod Gweithredol ei diolch i bawb a gymerodd ran wrth sicrhau'r cynnydd gofynnol a chefnogaeth y Pwyllgor Gweithredol ar y cyd yng nghyswllt penderfyniadau i'w cymryd, ynghyd â'r Tîm Addysg a'r staff ysgol mewn cael yr ysgol i'r sefyllfa hon.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb am fynychu cyn dod â'r cyfarfod terfynol i ben.